

CYNGOR TREF PORTHMADOG



COFNODION CYFARFOD CYNGOR TREF PORTHMADOG A GYNHALIWDYD DRWY GYFRWNG ZOOM AR NOS FAWRTH RHAGFYR 8 2020

Presennol : Cynghorwyr : Gwilym Jones (Cadeirydd), Selwyn Griffiths, Aled Griffith, Alwyn Gruffydd, Jason Humphreys, Bethan Rees Jones, Llywelyn Rhys, Ian Jones, Stuart Nashir-Hallard, Carol Hayes, Dr Melfyn Edwards
Marian Roberts (Clerc)

Ymddiheuriadau. : Simon Brooks, Nia Jeffreys, Richard Williams

63.12.20 Adroddiad y Cadeirydd.

Dyweddod y Cadeirydd fod y Clerc wedi derbyn cais gan grwp "gorauigymru" am gopi o'r ohebiaeth rhwng y Cyngor a'r AS Julie James. Yn dilyn ymgynghori gydag Unllais Cymru ac ystyried oblygiadau Rhyddid Gwybodaeth mae'r Cadeirydd yn fodlon i'r Clerc basio'r ohebiaeth yma ymlaen atynt.

Derbyniwyd newyddion trist fod difrod gan fandaliaid wedi digwydd i eiddo/offer garddio rhai o denantiaid rhandiroedd Cae Pawb. Ymddengys iddynt fynd i mewn i'r llecyn dros y giât ar y fynedfa. Disgwylir cais maes o law gan bwyllgor Cae Pawb yn gofyn am gyfraniad gan Gyngor Tref Porthmadog er mwyn addasu'r giât i ddiogelu'r safle ac i sicrhau na ellir dringo drosti.

64.12.20 Cadarnhau cywirdeb cofnodion

Cyfarfod 10.11.20

Nodwyd fod AGdd a ME wedi bod yn bresennol ers dechrau'r cyfarfod ond heb gael mynediad llawn iddo a bod angen dileu " Ymunodd... cyfarfod" yn mater rhif 46.11.20.

Yn Adroddiad y Cadeirydd nodwyd y cywiriad " llinellau melyn ar y ffordd tu allan i'r Swyddfa Bost"

Penderfynwyd : derbyn y cofnodion yn gywir wedi i'r Clerc ddiwygio a dileu yn briodol. (Cynnig SG eilio IJ)

Pwyllgor Cyllid/Eiddo Tachwedd 26.11.20

Penderfynwyd : derbyn y cofnodion yn gywir yn ôl cynnig SG , AG yn eilio.

65.12.20 Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.

Dymunodd JH ddatgan diddordeb yng nghynnyg CH ynglyn â'r LLeng Brydeinig.

Dymunodd SNH ddatgan diddordeb yng nghynnyg AGdd ynglyn â LLoches bws Tremadog.

Materion i'w dwyn gerbron :

66.12.20 Cynnig gan y Cyng. Bethan Rees Jones :-

Cynnig ein bod yn ysgrifennu at Kirsty Williams AS i fynegi pryder y bydd y Cwricwlwm Hanes newydd a ddaw yn 2022 yn gwanhau addysgu Hanes Cymru. Hefyd i ysgrifennu at gynghorau eraill yng Ngwynedd i ofyn am eu cefnogaeth yn y mater hwn.

Penderfynwyd : ysgrifennu at Kirsty Williams i fynegi anfodlonrwydd ynglyn â'r Cwricwlwm Hanes arfaethedig ac i ofyn am fwy o fanylion ynglyn â'r mater.

67.12.20 Cynnig Cyng. Richard Williams :- trafod biliau trydan Scottish Power am oleuadau Nadolig

Penderfynwyd : gohirio'r drafodaeth tan y cyfarfod nesaf yn absenoldeb RW.

68.12.20 Cynnig gan Cyng. Selwyn Griffiths :- trafod cynrychiolaeth y Cyngor ar Gorff Lywodraethwyr Ysgol Eifion Wyn

Eglurodd SG fod gan y Cyngor hawl i benodi rhywun o'r tu allan fel cynrychiolydd ar y Llywodraethwyr os nad oedd unrhyw un o'r Cynghorwyr â diddordeb mewn ymgymryd â'r dyletswyddau.

Cytunwyd ei bod yn bwysig fod gan y Cyngor Tref gynrychiolaeth ar y Bwrdd Llywodraethol ac i'r perwyl hwnnw holodd LLRH os fuasai'n bosib iddo newid o fod yn gynrychiolydd cymunedol i fod yn gynrychiolydd o'r Cyngor Tref ar fwrdd Llywodraethol Ysgol Eifion Wyn.

Penderfynwyd : y byddai LLRH yn holi Pennaeth yr ysgol ynglyn â hyn yn y cyfamser a rhoi'r mater ar raglen cyfarfod 12.1.21

69.12.20 Cyng. Alwyn Gruffydd : Ymgynghori ynglŷn â lloches bws newydd yn Sgwâr Tremadog.

Gadawodd SNH y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

Derbyniwyd y syniad na fydd lloches bws yn awr yn cael ei osod yn sgwâr Tremadog oherwydd gwrthwynebiad lleol.

Penderfynwyd : ysgrifennu'n ôl at Rhian Wyn Williams i holi am y posibilrwydd o osod y lloches newydd felly ar safle yn agos i'r ffordd sy'n arwain at yr ysgol ac i lwybr Ysbyty Alltwen.

70.12.20 Cyng. Carol Hayes:- Y Lleng Brydeinig

Cynnig ein bod yn anfon llythyr at y trefnydd lleol yn gofyn yn garedig i'r gangen sicrhau bod arwyddion cyhoeddus yn ddwy ieithog.

Gadawodd JH y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

Penderfynwyd : cefnogi'r cynnig.

71.12.20 Cyng. Carol Hayes :- Carreg Goffa Tŷ Moelwyn

Cynnig ein bod yn cysylltu gyda'r unigolyn perthnasol i ofyn os fuasai'r cwmni sydd yn adeiladu gwesty newydd Premier Inn yn fodlon arddangos carreg goffa Tŷ Moelwyn mewn man o'u dewis ar y safle.

Penderfynwyd: cefnogi'r cynnig gan CH, ME yn eilio.

72.12.20 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. (Dyddiad cau Rhaglen mis Ionawr 2021 5ed o Ionawr 2021)

➤ **Cynnig Cyng. Richard Williams :- trafod biliau trydan Scottish Power am oleuadau Nadolig**

73.12.20. Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm).

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth a pharhau i bwyso am ateb fel bo angen.

Gohebiaeth :

74.12.20 Delyth Jewell - Ail gartrefi

Penderfynwyd: ysgrifennu'n ôl i dderbyn y cynnig am fwy o wybodaeth wedi'r cyfarfod nesaf efo Llywodraeth Cymru.

75.12.20 Rhian Wyn Williams - Safleoedd bysiau Tremadog

Rhian Wyn Williams - Safleoedd bysiau Tremadog

Penderfynwyd : derbyn y ddau lythyr

76.12.20 Unllais Cymru - Diweddariad Llifogydd a TAN15

Penderfynwyd : derbyn y llythyr

77.12.20 Lucy Dale – Diffibrilwyr

Yn dilyn yr arolwg diweddar cytunwyd fod angen diffibrilwyr mewn 4 lleoliad sef : Lidl, Meithrinfa Hên Ysgol, Clwb Chwaraeon ac Ysgol Eifionydd. Awgrymwyd y gallai'r incwm meysydd parcio gyfrannu at y gôst.

Penderfynwyd : ysgrifennu'n ôl i ofyn am bris 4 diffibriliwr a 4 cabinet yn ôl cynnig SG – SNH yn eilio.

78.12.20 Hannah Joyce - Cynlluniau canol tref Porthmadog

Trafodwyd cynnwys y llythyr oedd yn cynnig ariannu gyda grant o'r Cynulliad syniadau ar sut i wella canol tref Porthmadog. Mynegwyd siom fod cyn lleied o amser ar gael i ymateb i'r llythyr. Ymysg rhai o'r syniadau a gynigwyd oedd :- diweddarau ac adnewyddu arwyddbyst y dref; gwaith celf i harddu'r dref; fflagiau/baneri; hysbysfwrdd cymunedol; ffynhonnau dŵr; biniau ailgylchu;

pwyntiau gwefru mewn meysydd parcio.

Penderfynwyd : ysgrifennu nôl i ymateb yn gadarnhaol i'r cynnig a gofyn am fwy o amser er mwyn ymgynghori ymhellach.

79.12.20 Dafydd Gibbard - Hysbysfwrdd Borth y Gest

Penderfynwyd : gadael y llythyr ar y bwrdd tan y cyfarfod nesaf yn absenoldeb SB yn ôl cynnig SG eilio CH.

80.12.20 Dafydd Wyn Williams - Gwasanaeth bws Alltwn

Arriva Group - Gwasanaeth bws Alltwn

Comisiynydd pobl hŷn - Gwasanaeth bws Alltwn

Cytunwyd fod y sefyllfa bresennol yn gwbwl annerbyniol lle nad oes darpariaeth trafnidiaeth cyhoeddus i wasanaethu Ysbyty Alltwn o ystyried mai pobl oedrannus gan mwyaf sydd yn mynychu'r ysbyty.

Penderfynwyd : ysgrifennu at Liz Saville a Dafydd Ellis Thomas (a chopi i Dafydd Wyn Williams) i fynegi anfodlonrwydd y Cyngor ac i dynnu sylw at y sefyllfa.

81.12.20 Jill Scupham - Gwasanaethau Iechyd Meddwl

Penderfynwyd : derbyn y llythyr

82.12.20 Unllais Cymru - Canlyniad arolwg aelodau

Penderfynwyd : derbyn y llythyr

83.12.20 Llywodraeth Cymru - Adran 137

Penderfynwyd : derbyn y llythyr

84.12.20 Clerc Penrhyndeudraeth - toiledau cyhoeddus ar gau

Penderfynwyd : derbyn y llythyr a chysylltu nôl i :-

- holi am faint yn union o ddyddiau y mae'r toiledau wedi bod ar agor dros y cyfnod Clo Cofid diweddar
- holi os oes gostyngiad gan Lywodraeth Cymru i dreth Busnes y toiledau dros y cyfnod clo;

ac i drafod y mater pan fydd y bil yn ddyledus yn y cyfarfod nesaf.

85.12.20 Dŵr Cymru - Carthffosiaeth Porthmadog

Penderfynwyd : gadael y llythyr ar y bwrdd tan y cyfarfod nesaf yn absenoldeb RW.

86.12.20 Julie James - Tai fforddiadwy

Penderfynwyd : derbyn y llythyr

87.12.20 Alys Lloyd Jones - Grant meysydd chwarae

Cytunwyd ei bod hi'n anodd iawn cyflawni cais o'r fath mewn cyn lleied o amser erbyn 31.3.21. Holwyd os oedd cynllun yn bodoli eisoes dan ofal y grwp Breuddwydion Bro. Cynigiodd SNH y byddai yn cysylltu â rhywun i roi amcanbris am gynllun gan 3 person gwahanol. AG yn eilio.

88.12.20 Llywodraeth Cymru - Newyddlen Diwygio Etholiadaol

Penderfynwyd : derbyn y llythyr

89.12.20 Materion Ariannol :

Derbyniadau :

Llog Banc Tachwedd 2020	£ 0.29
Cyfraniad Caru Port at y goleuadau Nadolig	£3200.00

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:-

Marian Roberts	LLinell Ffôn a Wê Tachwedd	£ 37.57
Marian Roberts	5 x cerdyn cydymdeimlad	£ 5.00
Marian Roberts	Costau teithio Tachwedd	£ 10.29
Marian Roberts	Cyfrifiannell desg	£ 11.99
Marian Roberts	Cyflog Clerc Tachwedd 2020	£ 603.20
Cyllid a thollau ei Mawrhydi	Treth incwm cyflog Clerc Tachwedd 2020	£ 150.80
Penrhyn Hire	Cherry picker	£ 158.40
Glasfryn	4 coeden Nadolig	£ 850.80

90.12.20 Ceisiadau Cynllunio

(i) C20/0922/44/LL Capel Zion, Stryd Wesla, Porthmadog LL49 9DS

Trosi capel gwag yn dŷ

(ii) Cais i amrywio Trwydded eiddo Llew Coch (epost 18.11.2020)

(iii) C20/0961/44/CC

Lleoliad / Location: Stryd Fawr - Porthmadog, Porthmadog, LL49 9DA

Bwriad / Proposal: Gwaith i goed yn sgil gwneud gwaith i'r arosfan bws

Penderfynwyd : dim gwrthwynebiad i'r un o'r ceisiadau.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.55yh.

Yn gywir,

Marian Roberts

Marian Roberts (Clerc/Clerk), 29 Maes Gerddi, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9LE

Ffôn / Tel : 01766 513709

E-bost/ e-mail : clerccyngtreport@gmail.com

